# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2013-2014

## Crynodeb

Gwnawn ein gorau glas i fod yn sefydliad sydd â chydraddoldeb yn ganolog i'w waith, a byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i osod patrwm enghreifftiol fel sefydliad seneddol, cyflogwr a darparwr gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2013-2014 yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ein blaenoriaethau, yn cyhoeddi a dadansoddi ein data monitro staff a recriwtio, ac yn cynnwys Dadansoddiad Cyflog Cyfartal.

Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol llawn ar gael yn:
**www. cynulliadcymru.org/equalities**

Mae'r uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Datblygu ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd i gynyddu cyfranogiad menywod mewn rolau cyhoeddus.
- Ymgymryd ag ymgynghoriad ar sut rydym yn cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad.
- Parhau i hyrwyddo cydraddoldeb ymysg Aelodau'r Cynulliad, ein staff a'r cyhoedd.
- Croesawu amrywiaeth eang o ymwelwyr i'n hystâd ar gyfer teithiau, digwyddiadau ac arddangosfeydd amrywiol.
- Cynyddu ein gwaith i ymgysylltu â phobl ledled Cymru, mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Cael cydnabyddiaeth allanol am ein hymrwymiad i gefnogi ein staff yn llawn a meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol:
    - **Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl -** y gydnabyddiaeth uchaf am ein hymrwymiad i'n staff.
    - Y cyflogwr gorau ar gyfer **teuluoedd sy'n gweithio**.

## Geirfa

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – mae'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad sydd wedi eu hethol i gynrychioli pobl Cymru, i ddeddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Aelodau'r Cynulliad** – gwleidyddion wedi eu hethol sy'n ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r 60 o Aelodau yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru.

**Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad)** – y corff sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad. Y Llywydd sy'n cadeirio'r Comisiwn, sydd hefyd yn cynnwys pedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol. Mae gan y Comisiwn gyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n cefnogi Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y Comisiwn i'r cyhoedd yn cynnwys croesawu ymwelwyr i ystâd y Cynulliad, darparu gwybodaeth i bobl, i ysgolion a grwpiau cymunedol sy'n ymweld â ni o Gymru benbaladr.

**Y Llywydd** – yr Aelod Cynulliad a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol i gadeirio dadleuon yn y Cyfarfod Llawn a chynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

**Busnes y Cynulliad** – y gwaith a wneir gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys yn nadleuon y Cyfarfod Llawn, mewn pwyllgorau ac yng nghyswllt eu hetholaeth.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

  – **Un o'r 50 cyflogwr gorau ar gyfer Menywod yn The Times**.
  – **Nod Siarter Action on Hearing Loss** sy'n dangos ein bod wedi ymrwymo i gwrdd ag anghenion staff a defnyddwyr gwasanaethau sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.
  – Y Cyflogwr Sector Cyhoeddus mwyaf ystyriol o bobl hoyw yng Nghymru, a rhif 11 ym **Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall UK 2014**.
– Recriwtio Cydlynydd i fwrw ymlaen â'n gwaith i annog Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) i wneud cais am waith yn y Cynulliad ac i gefnogi datblygiad ein staff BME.
– Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth o ddigwyddiadau cydraddoldeb gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia; Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr; Mis Hanes Pobl Dduon; Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl; Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol; a, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.
– Cynyddu hygyrchedd Cwestiynau i'r Prif Weinidog (FMQs). Yn ogystal â darparu fersiwn gydag is-deitlau ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog rydym hefyd wedi gweithio gydag S4C ar gynllun peilot i ddarparu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer y Cwestiynau. O fis Medi 2014 ymlaen, bydd pob eitem Cwestiynau i'r Prif Weinidog yn cael ei harchifo a bydd ar gael o fewn 24 awr ar ein sianel YouTube gydag is-deitlau a dehongliad Iaith Arwyddion Prydain.
– Annog mwy o fenywod i ystyried rhoi tystiolaeth i bwyllgorau. Mewn ymateb i'r nifer isel o fenywod sy'n rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes buom yn gweithio gyda Chwarae Teg i ganfod a hyfforddi naw o fenywod i gynyddu eu hyder a chodi ymwybyddiaeth ynghylch rhoi tystiolaeth.

## Wrth symud ymlaen:

– Byddwn yn parhau i geisio cyrraedd pobl ar draws Cymru mewn ffyrdd arloesol, i godi proffil y Cynulliad, i annog cyfranogiad yn ein gwaith, ac i roi ein Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Phobl Ifanc a'n hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ar waith.
– Byddwn yn parhau i sicrhau bod gwybodaeth am y Cynulliad mor glir a hygyrch â phosibl a byddwn yn parhau i weithio i'w gwneud yn haws i bobl Cymru ymgysylltu â gwaith y Cynulliad a dylanwadu arno.
– Rydym yn gweithio â Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth i gyflawni achrediad fel darparwr gwasanaeth sy'n ystyriol o awtistiaeth.
– Byddwn yn cyflwyno hyfforddiant gloywi ar gyfer Dehongliad Iaith Arwyddion Prydain ac ymwybyddiaeth pobl fyddar i staff sydd wedi nodi eu bod angen hyfforddiant.
– Byddwn yn datblygu Polisi Iechyd Meddwl yn y Gweithle ar gyfer staff.
– Byddwn yn annog staff i ddiweddaru eu data cydraddoldeb personol ar ein system Adnoddau Dynol/Cyflogres a byddwn yn edrych ar ffyrdd o leihau nifer y diffyg atebion ar ffurflenni cais recriwtio.
– Byddwn yn hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein i Aelodau'r Cynulliad sy'n ymwneud â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
– Byddwn yn edrych ar ddatblygu'r gwersi a ddysgwyd yn yr hyfforddiant tystion arbenigol.
– Byddwn yn profi ein hadnodd newydd ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod Haf 2014.

# Cysylltwch â ni

Os oes angen copi o'r adroddiad cryno hwn mewn fformat arall arnoch, cysylltwch â'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad:

**Y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad,**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru,**
**Tŷ Hywel,**
**Bae Caerdydd,**
**Caerdydd,**
**CF99 1NA**

E-bost: **TîmCydraddoldeb@cymru.gov.uk**

Ffôn: **029 2089 8204**

Rydym hefyd yn croesawu galwadau a wneir drwy ddefnyddio'r gwasanaeth Text Relay.
**I ddefnyddio'r gwasanaeth Text Relay, ffoniwch 0845 010 5500.**